Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn ▪ Tel: 0300 065 3000
e-bost ▪ e-mail: marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk

Dyddiad : **09 Gorffennaf 2026**

Annwyl Peter Webb,

**Teitl y Prosiect:** **Gosod Offer Monitro ac Echdynnu Deunydd Oddi Wrth Hen Bont Afon Gwy, Afon Gwy**

**Deiliad y Drwydded:** **Cyngor Sir Fynwy**

**Rhif y drwydded:** **ML26032**

Rydym wedi caniatáu eich trwydded forol i ymgymryd â'r gwaith a enwir uchod. Rhoddir y drwydded hon gennym ni fel yr awdurdod trwyddedu ar ran Gweinidogion Cymru, o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Bellach mae'n bosibl i chi gael mynediad i'ch:

- trwydded forol **ML26032**
- dogfen benderfynu

Dylech adolygu'r rhain yn ofalus a sicrhau bod unrhyw un sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a restrir yn y drwydded (gan gynnwys asiantau neu gontractwyr sy'n gweithredu ar eich rhan) yn dilyn holl amodau'r drwydded.

Mae gennych drwydded i ymgymryd â'r gweithgareddau a restrir yn y drwydded forol yn unig. Os ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw beth arall fel rhan o'ch prosiect, efallai y bydd angen i chi wneud cais am drwyddedau morol eraill. Efallai y bydd angen i chi wneud cais am ganiatadau eraill hefyd ar gyfer eich prosiect.

### Nodiadau cynghori

Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am gadarnhad y dylai'r prosiect lynu wrth fesurau safonol atal llygredd a bioddiogelwch, ers hynny mae hyn wedi'i gydnabod gan yr ymgeisydd ac wedi'u cynnwys o dan yr Amodau Rheoli Llygredd Safonol. Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at ni ddylid gweithio yn ystod y nôs oherwydd presenoldeb dyfrgi (*Lutra lutra*), ers hynny mae'r ymgeisydd wedi hysbysu bydd y gwaith yn digwydd yn ystod oriau golau dydd yn unig.

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Os bydd arnoch angen eglurhad ynghylch unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â'ch trwydded, gallwch gysylltu â ni i ofyn am esboniad.

Rhaid i chi roi gwybod i Swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru ac i ninnau am y gweithgareddau cyn pen **5 diwrnod** cyn i unrhyw waith ddechrau.

Os nad yw'n debygol y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad dod i ben ar y drwydded, rhaid i chi gael trwydded newydd cyn iddi ddod i ben. Mae ein hamserlenni i'w gweld yma Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud cais am drwydded forol.

**Hawliau apelio**

Mae gennych hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn y penderfyniad hwn. Rhaid gwneud yr apêl yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apeliadau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011.

Rhaid i Weinidogion Cymru gael hysbysiad o apêl cyn pen chwe mis i ddyddiad y penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Rhaid i chi anfon hysbysiad ysgrifenedig o apêl gan gynnwys y dogfennau a restrir isod at Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

Gweinidogion Cymru, d/o Y Gangen Trwyddedu Morol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ar yr un pryd, rhaid i chi anfon copi o'r hysbysiad o apêl atom ni i'r cyfeiriad canlynol:

Rheolwr y Gwasanaeth Trwyddedu, Y Gwasanaeth Trwyddedu (Caerdydd), Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3NQ

Rhaid i'r hysbysiad o apêl gynnwys y canlynol:

a) enw, cyfeiriad (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad e-bost) a rhif ffôn yr apelydd ac unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ran yr apelydd;
b) datganiad o'r sail dros apelio;
c) datganiad yn nodi a yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad;
d) copi o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;
e) copi o'r holl ddogfennau y mae'r apelydd yn dymuno dibynnu arnynt; a
f) rhestr o'r holl ddogfennau, gan gynnwys dyddiadau (lle mae unrhyw ddogfen wedi'i dyddio), a bennir ym mhwyntiau bwled d) ac e) uchod:

Gallwch dynnu apêl yn ôl gan hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ac anfon copi o'r hysbysiad hwnnw atom ni i'r cyfeiriad a nodir uchod.

Yn gywir,

**Vicky Fisk**
**Y Tîm Trwyddedu Morol**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**